

No.

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); M. Evans (Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a A. Veale and J. Ownes (Archwiliad Cymru).

521 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

522 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

523 DATGANIAD CYFRIFON ARCHWILIEDIG 2022/23 (PW) -

Roedd gan y Cyngor tan 31 Mai bob blwyddyn i gyflwyno Datganiad Cyfrifon drafft a Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac archwiliad ac archwilio allanol oedd tan 31 Gorffennaf i gyhoeddi tystysgrif. Roedd y dyddiadau cau hyn wedi'u llacio yn ystod COVID 19 ond gan y bu ôl-groniad o waith yn genedlaethol ac roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ardystio i 30 Tachwedd, 2023 ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2023/23.

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2023 erbyn dyddiad cau Archwilio Cymru y cytunwyd arno'n lleol. Serch hynny, roedd y Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad cyhoeddi hwyr.

Roedd y Datganiad Cyfrifon Terfynol Drafft yn cynnwys cydgrynhoi cyfrifon drafft Cydbwyllgor y Fargen Ddinesig a chyfrifon Pwyllgor Archwilio Big Fresh diwygiedig, y ddau newid y llinell waelod o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ac na ellir eu defnyddio a adroddwyd ym mis Gorffennaf. Roedd nifer o

No.

newidiadau eraill yn bennaf o natur cyflwyno a dosbarthu a nodwyd yn yr adroddiad ac a oedd hefyd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr Archwilydd. Ers anfon yr agenda gwnaed rhai mân newidiadau i Atodiadau A a D a oedd wedi'u dosbarthu i'r Aelodau a'u lanlwytho i wefan y Cyngor cyn y cyfarfod.

Dangosodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i fodloni'r egwyddorion llywodraethu. Nodwyd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2022/23.

Roedd Archwilio Cymru wedi ysgrifennu at bobl â chyfrifoldeb dros Lywodraethu i gael sicrwydd nad oedd unrhyw dwyll a fyddai'n cael effaith ar gywirdeb ac uniondeb y Datganiad Cyfrifon. Amlygodd yr adroddiad nad oedd unrhyw faterion twyll yn effeithio ar gyfrifon y Cyngor. Roedd archwiliad allanol y Datganiadau Cyfrifon bron â chael ei gwblhau gyda'r ISAA260 gan gynnwys atodiadau sy'n nodi'r diwygiadau archwilio y cytunwyd arnynt ynghyd ag argymhelliad mewn perthynas â datganiadau buddiannau Uwch Reolwyr. Roedd archwiliad allanol Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor hefyd wedi'i gwblhau heb fod angen unrhyw newidiadau sylweddol er bod un pwynt bach yn ymwneud â'r Polisi Chwythu'r Chwiban wedi'i ddiweddarau wedi'i adlewyrchu yn fersiwn derfynol y datganiad.

Roedd gwaith archwilio hefyd bron â chael ei gwblhau ar y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Byddai'r cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried yn y cylch nesaf.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 drosolwg o'r adroddiad i'r Pwyllgor drwy gyflwyniad PowerPoint gan gynghori ymhellach o ran yr argymhelliad Rheoli a gynhwysir yn yr adroddiad yn ymwneud â datganiadau Uwch Swyddogion o dan God Ymddygiad y Cyngor, y rhoddwyd sylw i'r mater hwn fel y manylwyd yn yr adroddiad, drwy ofyn am ddatgeliad atodol gan swyddogion yn ystod y cyfnod archwilio mewn perthynas â 2022/23 ar sail nad yw'n eithriad, gan y nodir bod y broses hon wedi'i chwblhau o fewn amserlen cau cyfrifon ar gyfer 2023/24. Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch sut y cyrhaeddir y diffiniad o uwch swyddogion, dywedodd yr Archwilydd mai mater i'r Awdurdod Lleol oedd penderfynu arno ac fel arfer cymerwyd ef o restr taliadau'r Cyngor.

Tynnodd y swyddog Adran 151 sylw hefyd at flaenoriaeth bosibl sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag RAAC (Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth) gan gynghori, er bod newyddion cadarnhaol ar y mater hwn ar hyn o bryd heb unrhyw broblemau, gallai hyn newid yn y dyfodol. Roedd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa hon yn rheolaidd a byddai'n diweddarau Archwilio Cymru yn ôl yr angen.

Manteisiodd y Pennaeth Archwilio ar y cyfle i gynghori'r Pwyllgor ei fod wedi rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor mewn perthynas â gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Roedd adolygiad wedi'i gynnal a lle roedd camau gweithredu wedi'u nodi byddent yn cael eu dwyn ymlaen; nodir bod y rheolaethau sylfaenol ar waith drwy Gyfansoddiad y Cyngor.

No.

Dyweddodd yr Archwilydd Allanol Mr A Veale wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol wedi codi yn ystod yr archwiliad a manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion a'r rheolwyr am y gefnogaeth a dderbyniwyd yn ystod yr archwiliad gan ddatgan ymhellach fod rheolwyr y Cyngor wedi ystyried popeth. Cydymffurfiwyd â'r un argymhelliad yn ymwneud â datganiadau buddiannau uwch swyddogion hefyd. I gloi, dywedodd mai'r camau nesaf fyddai adrodd ar y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/23 i'w gymeradwyo i'r Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr, 2023 ac i'r Archwilydd Cyffredinol lofnodi'r cyfrifon ar 7 Rhagfyr, 2023.

Dyweddodd y Cynghorydd Hooper wrth gyfeirio at gyfrifon Cydbwyllgor Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod y Pwyllgor wedi gofyn yn flaenorol i gynrychiolydd o'r Cydbwyllgor fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno eu cyfrifon. Hyd yn hyn, dywedodd nad oedd hyn wedi digwydd. Awgrymwyd wedyn bod y Cyfarwyddwr a Chyfrifydd y Pwyllgor hwnnw yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y flwyddyn newydd yn y dyfodol i gyflwyno eu cyfrifon gyda'r Swyddog Adran 151 yn dweud y byddai'n briodol iddynt fynychu cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith y bydd y cyfrifon wedi'u cymeradwyo.

Holodd Mr. M. Evans (aelod lleyg) a oedd unrhyw rwymedigaethau i'w hamlygu yn yr adroddiad ar gyfer y Cyngor. Ymatebodd y Swyddog Adran 151 drwy gadarnhau y byddai unrhyw rwymedigaethau wedi'u codi yn ystod yr archwiliad a chyn cyfarfod y Cyngor Llawn yn dweud nad oedd unrhyw rwymedigaethau i'w cynnwys ar hyn o bryd. Ar ben hynny, dywedodd y Swyddog Adran 151 fod cyfeiriad teithio y Cyngor mewn lle da ac roedd y Cyngor yn gweithio'n dda gydag Archwilio Cymru.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Allanol er gwybodaeth i'r Aelodau fod Cyngor Bro Morgannwg wedi cwblhau ei gyfrifon erbyn diwedd mis Mehefin ond nad oedd pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwneud hyn, am resymau da iawn. Roedd hefyd yn cytuno bod perthynas dda iawn gyda swyddogion yn y Fro oedd wedi cefnogi Archwilio Cymru gyda'r holl geisiadau am wybodaeth yn ôl yr angen yn ystod y broses. Cydnabuwyd hefyd fod newidiadau sylweddol wedi bod o fewn y Tîm Ariannol drwy gydol y flwyddyn a oedd wedi effeithio i raddau ar gynhyrchu'r cyfrifon.

Manteisiodd y Swyddog Adran 151 ar y cyfle hefyd i ddiolch i Archwilio Cymru am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn gyda hynny wedi hynny.

PENDERFYNWYD -

(1) ARGYMELL i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Terfynol a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn Atodiadau A (Atodiad diwygiedig) a B i'r adroddiad yn y drefn honno.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog A151 mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i wneud unrhyw addasiadau terfynol i'r Datganiad Cyfrifon Terfynol a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn ôl yr angen.

No.

- (3) CYMERADWYO'r ymateb i Ymholiadau Archwilio Cymru yn Atodiad C i'r adroddiad.
- (4) NODI ISA260 Archwilio Cymru drafft a'r camau rheoli y cytunwyd arnynt gan Fro Morgannwg.
- (5) NODI'r mân ddiweddariadau i Atodiadau A a D.
- (6) BOD y Swyddog Adran 151 yn cysylltu â swyddogion a Chadeirydd Cydbwyllgor y Fargen Ddinesig gyda'r bwriad o weld cynrychiolwyr yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol i gyflwyno eu cyfrifon.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.
- (2) Mae'r Archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyflawn yn y bôn ond efallai y bydd rhai mân newidiadau i'w gwneud cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.
- (3) Mae Archwilio Cymru wedi ysgrifennu at y ddwy swyddfa a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gyda chyfres o ymholiadau i roi sicrwydd ar dwyll, partïon cyfreithiol a phartïon cysylltiedig.
- (4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (5) Ystyried mân ddiweddariadau pellach a dderbyniwyd.
- (6) O ystyried natur dechnegol y cyfrifon y bydd cynrychiolwyr Cydbwyllgor y Fargen Ddinesig yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol i gynghori'r Pwyllgor.